



15 Mawrth 2024

## **Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda, ar Ddydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 11.05am neu yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor os yn hwyrach i drafod y materion canlynol:**

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
3. Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.
4. Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.

### **Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**  
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.